**Cyngor Partneriaeth Cymru – 10 Chwefror 2022 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan CLlLC am Ddatgarboneiddio**

## Pwrpas

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith **Panel y Strategaeth Ddatgarboneiddio** (DSP) [1] a gofyn i Gyngor Partneriaeth Cymru ardystio cynllun cymorth ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt gweithio i cyflawni ymrwymiadau yn y cynllun *Cymru Sero Net* .

## Cefndir

2. Yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ar 7 Gorffennaf, cynigiwyd nifer o **ymrwymiadau** ar gyfer llywodraeth leol o dan bedwar thema'r Map Llwybr i Sero Net (caffael, cludiant, adeiladau a defnydd tir) a chawsant eu hardystio.

3. Yn y cyfarfod canlynol ar 24 Tachwedd, darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf. Cyflwynwyd canfyddiadau adolygiad o gynlluniau newid hinsawdd a datgarboneiddio awdurdodau lleol. Nodwyd bod comisiynau gwaith yn cael eu llunio, gan wneud defnydd o fframwaith ymgynghorol a sefydlwyd gan CLlLC. Bydd y comisiynau hyn yn canolbwyntio ar feysydd lle mae cynghorau wedi nodi yn yr adolygiad bod angen cyngor a chefnogaeth ychwanegol arnynt. Mae'r holl waith hwn yn cael ei wneud fel rhan o **Raglen Cefnogi Pontio ac Adfer (TaRSP)** CLlLC, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. [2]

4. Cytunwyd hefyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth y dylid cydweithio i ddatblygu **rhaglenni gwaith dros nifer o flynyddoedd ar gyfer Cymru gyfan**, gyda thargedau penodol wedi'u halinio. Amlinellwyd trefniadau adrodd, er mwyn sicrhau bod modd mesur cynnydd tuag at gyrraedd y targedau dros amser.

5. Yn olaf, cytunwyd y dylai'r Panel ymestyn ei gylch gorchwyl i ystyried **addasu a chadernid** yn ogystal â lliniaru / datgarboneiddio.

## Cynnydd

6. Amlinellwyd cynlluniau ar gyfer cyfres o **seminarau / dosbarthiadau meistr** yng nghyfarfod mis Tachwedd. Mae'r ddau gyntaf wedi'u cynnal ac roedd llawer yn bresennol. Yn y sesiwn gyntaf, soniodd Cyngor Sir Ddinbych am gamau y maent wedi'u cymryd i sefydlu datgarboneiddio yn eu gweithrediadau. Yn yr ail sesiwn, siaradodd swyddogion o Ynys Môn, Sir Benfro a Blaenau Gwent am eu gwaith arloesol mewn perthynas â rheoli cludiant a cherbydau fflyd, gan ddefnyddio a chynllunio ar gyfer cerbydau

[1] Sefydlwyd Panel y Strategaeth Ddatgarboneiddio ar gais yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Mehefin 2020.

[2] Y pump ymgynghorydd ar fframwaith CLlLC yw: Netherwood Sustainable Futures, Miller Research, Cylchog, Grant Thornton a Costain.

trydan a/neu hydrogen. Mae tair sesiwn arall eisoes wedi'u trefnu i drafod adeiladau, defnydd tir a chaffael.

7. Mae nifer o friffiau ar gyfer **ymchwil gan y fframwaith ymgynghorol** yn y broses o gael eu cytuno gyda'r ymgynghorwyr, ac mae gwaith eisoes ar y gweill mewn rhai achosion. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan TaRSP mewn perthynas â phob un o'r ymrwymiadau.

8. Er enghraifft, un o'r ymrwymiadau a restrir yn Atodiad 1 mewn perthynas â **defnydd tir** oedd i gynghorau:

   "*Mewn cydweithrediad â CNC / CLlLC / LlC, mapio daliadau tir ALlau erbyn diwedd mis Ebrill 2022, er mwyn nodi mathau o dir a'u potensial o ran dal a storio carbon i ddatblygu cynlluniau i wneud y mwyaf o fuddion carbon, ynni adnewyddadwy ac i nodi mesurau rheoli posibl i amddiffyn rhag llifogydd .*".

9. Bydd ystod eang o gymorth yn cael ei gynnig i ALlau drwy'r rhaglen i gyflawni'r holl ymrwymiad hwn, ac i helpu i symud cynlluniau sy'n dod yn sgil hynny ymlaen i'w gweithredu. Fel rhan o hyn, ar gyfer yr ymrwymiad defnydd tir uchod, mae dau o'r ymgynghorwyr ar Fframwaith CLlLC wedi cael eu comisiynu i:

   - gael dealltwriaeth fanwl a chyfredol o'r anghenion yn y maes gwaith hwn
   - archwilio'n drylwyr yr offer sydd eisoes ar gael a pha mor briodol ydynt i ddiwallu'r anghenion hyn
   - pwyso a mesur a datblygu canllawiau nid yn unig ar gynhyrchiant gwaelodlin, ond ffyrdd y gall swyddogion ac aelodau ddatblygu'r achos busnes ar gyfer datgarboneiddio ar dir
   - gweithio gydag awdurdodau blaengar i'w cefnogi i ddefnyddio dull datgarboneiddio ar dir ar gyfer yr awdurdod cyfan, er mwyn i eraill allu dysgu oddi wrthynt
   - ac yn olaf; ymgysylltu swyddogion ac aelodau gyda'i gilydd (ar ôl yr etholiad) mewn gweithdai rhanbarthol i ystyried dulliau lleol a rhanbarthol o ddatgarboneiddio ar dir.

10. O ganlyniad i'r gwaith hwn, dylai awdurdodau lleol fod mewn gwell sefyllfa i ystyried potensial eu daliadau tir o ran dal a storio carbon. Mae'n bosibl y bydd modd datblygu **rhaglenni rhanbarthol neu genedlaethol**, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, CNC ac eraill i sicrhau bod camau gweithredu dilynol yn cael eu cymryd mewn modd effeithlon, deallus a chydgysylltiedig.

11. Mae'r un dull yn cael ei ddilyn mewn perthynas ag ymrwymiadau eraill - h.y. comisiynu gwaith a fydd yn cynorthwyo pob un o'r 22 ALl i gyflawni'r ymrwymiadau a chyrraedd targedau a osodir.

12. Datblygiadau eraill sydd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf yw:

- **Addasu a chadernid** – yng nghyfarfod mis Ionawr, cafodd y DSP gyflwyniad gan swyddogion Llywodraeth Cymru am gynlluniau i ddiweddaru cynlluniau addasu i Gymru. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud trwy gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi cael ei wahodd i un o gyfarfodydd y DSP yn y dyfodol i rannu eu harbenigedd am addasu o safbwynt y DU.

- **Datblygu gwefan** – mae tudalennau gwe yn cael eu creu ar wefan CLlLC (Rhaglen Cymorth Datgarboneiddio ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru - CLlLC) gyda gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi awdurdodau lleol yn eu gweithgareddau newid hinsawdd a datgarboneiddio. Dylai hyn eu helpu i wneud synnwyr o'r amrywiaeth eang o wybodaeth sydd ar gael. Wrth i adroddiadau gael eu cynhyrchu, byddant yn cael eu huwchlwytho fel bod pob un o'r 22 ALl yn gallu defnyddio'r wybodaeth a gynhyrchir, mewn fformat 'hawdd i ddefnyddio'.

- **Grŵp Swyddogion Newid Hinsawdd** – mae grŵp o swyddogion sy'n arwain gwaith newid hinsawdd ym mhob ALl wedi'i ffurfio a bydd yn gyswllt hanfodol yn y gadwyn gyfathrebu rhwng y TaRSP, y DSP ac awdurdodau lleol. Mae'r grŵp eisoes wedi cael ei ddefnyddio fel seinfwrdd ar gyfer y comisiynau sy'n cael eu datblygu, i sicrhau y byddant yn darparu'r hyn sydd wir ei angen.

- **Cyfathrebu ac ymgysylltu** – mae gwaith ar y gweill i ddatblygu prosesau clir ar gyfer casglu a lledaenu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n codi ymwybyddiaeth gan osgoi dyblygu ymdrechion ar yr un pryd

- **Cofnodi camau gweithredu a monitro prosesau** – Mae dangosfwrdd yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio statws 'COG' (coch, oren, gwyrdd) a fydd yn help i gyflwyno'r wybodaeth hon mewn dull y gellir ei amgyffred yn hawdd.
  Bydd hyn yn bwydo i mewn i waith monitro rheolaidd ac adroddiadau cynnydd dros amser.

**Argymhellion**

13. Argymhellir bod y Cyngor Partneriaeth yn gwneud y canlynol:

- nodi cynnydd rhaglen gymorth TaRSP CLlLC hyd yma
- ardystio'r dull gweithredu fel y'i nodir, cefnogi awdurdodau lleol i weithio tuag at yr ymrwymiadau a gytunwyd yn flaenorol.

## ATODIAD – cynllun gwaith TaRSP yn erbyn ymrwymiadau Llywodraeth Leol

# Link to the NZW LG Commitments

| Net Zero Wales Commitments | TaRSP |
|---|---|
| **Buildings**<br>- Develop and deliver a strategic plan for decarbonising local authority estate.<br>Ystadau Cymru as strategic lead;<br>- Strategic plan for decarbonising buildings by end of 2023.<br>- All public buildings supplied with low carbon heat by 2030.<br>- All new public sector buildings are built to net zero standard. | • Decarbonisation Masterclass on Buildings taking place on February 16th. Sharing best practice on Re:fit programme and retro fitting older buildings.<br>• Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly. |
| **Procurement**<br>- Develop understanding of emissions profile of all procured goods and services by end of 2022.<br>- Carbon reduction specifications in all new or reviewed contracts.<br>- Focus on a number of priority contracts and share learning re. decarb across LAs by end 2022 – to develop a decarb approach to be applied to all contracts by 2023. | • Commissioned support on procurement and scope 3 emissions<br>• Masterclass on Procurement in planning for April<br>• Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly |
| **Mobility & Transport**<br>- Build on fleet reviews and develop plans for transforming fleet, inc. EV charging infrastructure, all new cars and light goods vehicles ULEV by 2025, reduce carbon footprint of buses, taxis and private hire vehicles to zero by 2030.<br>- Grey fleet review to be completed by end of 2022 (working with WGES)<br>- Support remote working where possible, at home or in hubs. Encourage active travel and public transport. | • Commissioned support on transport and low carbon infrastructure – skills, making the business case<br>• Masterclass on Transport 19th January<br>• Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly |
| **Land Use**<br>- Map out local authority land holdings by April 2022 to identify types of land and their potential for carbon sequestration, renewable energy and flood management.<br>- Carbon sequestration seen as a core purpose for public land by leaders.<br>- Develop 5 year training and apprenticeship programme and peatland restoration to support the supply chain. | • Commissioned support on land use – establish baseline, measure potential of land, making the business case.<br>• Masterclass on Land Use in planning for March<br>• Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly |

LLAIS CYNGHORAU CYMRU
THE VOICE OF WELSH COUNCILS